# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Gyfarfod 4B, Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 29 Ebrill 2025

Amser: 08.58 - 09.49

# Hybrid / Private

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Paul Davies AS<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Matthew Richards, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Dros Dro<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Dydd Mawrth

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau a ganlyn:

- Datganiad gan y Prif Weinidog: Bil y Diwydiant Dur (Mesurau Arbennig) (45 munud)
- Datganiad gan y ~~Prif Weinidog~~ Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol (60 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Strategaeth Bwyd Cymunedol (45 munud)
- ~~Datganiad gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch: Addysg Ryngwladol (45 munud)~~ – *Gohiriwyd tan 3 Mehefin*

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.20pm.

Mynegodd Heledd Fychan y farn y byddai dadl ar y Bil Diwydiant Dur (Mesurau Arbennig) wedi bod yn well na datganiad. Ymatebodd y Trefnydd fod datganiad llafar yn cael ei ystyried yn fwy priodol ar yr achlysur hwn.

Gofynnodd Heledd Fychan a fydd datganiad llafar yn cael ei gyflwyno i nodi deng mlynedd ers sefydlu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cadarnhaodd y Trefnydd y bydd datganiad llafar yn cael ei drefnu ym mis Mehefin.

Dydd Mercher

Rhoddodd y Llywydd wybod i’r Rheolwyr Busnes am y newid a ganlyn:

- Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd (~~30~~ 10 munud)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyflwyno cynigion i’w hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher i newid aelodau’r grŵp Ceidwadol ar y pwyllgorau a ganlyn:

- Tom Giffard i gymryd lle Samuel Kurtz ar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
- Samuel Kurtz i gymryd lle Laura Anne Jones ar y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

O dan eitem 6.1, trafododd y Pwyllgor Busnes swydd wag Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a chytuno y dylid parhau i’w dyrannu i'r grŵp Ceidwadol. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y bydd y Llywydd yn gwahodd enwebiadau ar ddechrau'r Cyfarfod Llawn ddydd Mercher, gyda phleidlais gudd i'w chynnal yn ystod y cyfarfod os oes angen.

O ganlyniad, cytunwyd ar y newidiadau a ganlyn i agenda dydd Mercher:

- Enwebiadau ar gyfer Cadeirydd Pwyllgor (5 munud)
- Cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau (5 munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.15pm.

Siambr Hywel

Gofynnodd y Llywydd i Reolwyr Busnes sicrhau bod Aelodau eu grwpiau wedi ymgyfarwyddo â'r canllawiau ar weithredu Cyfarfod Llawn a gynhelir yn Siambr Hywel, cyn y cyfarfod y prynhawn yma.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid a ganlyn i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 6 Mai 2025**

- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant (45 munud)

Ar gais y Trefnydd, cytunodd y Rheolwyr Busnes i symud y Cwestiynau Llafar i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg o 21 Mai i 4 Mehefin. O ganlyniad, bydd Cwestiynau Llafar i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip yn symud o 4 Mehefin i 21 Mai.

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd i drefnu'r eitemau a ganlyn ar Amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 21 Mai 2025 -**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Rôl, llywodraethiant ac atebolrwydd y sector cynghorau tref a chymuned (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Adroddiad Blynyddol ar Gysylltiadau Rhyngwladol 2024 (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer: Mick Antoniw AS (Pontypridd) (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Amserlen ar gyfer y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)

Trafododd y Pwyllgor Busnes yr amserlen arfaethedig ar gyfer gwaith craffu ar y Bil Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) a chytunodd i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i ystyried yr egwyddorion cyffredinol.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymgynghori â'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer gwaith craffu, a dychwelyd at y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 4.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ynghylch y dull o ystyried Bil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a'r cais y mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi'i wneud i Lywodraeth Cymru, cyn ei ystyriaeth ei hun o'r amserlen ar gyfer Bil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y Trefnydd y bydd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn ystyried y llythyr ac yn ymateb maes o law i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

### 4.3 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes ddiweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a chytunodd i:

- gyfeirio'r Memorandwm ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 27 Mehefin 2025;
- cyfeirio'r Memorandwm Atodol (Rhif 3) ar y Bil Hawliau Cyflogaeth at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 13 Mehefin 2025;
- cyfeirio’r Memorandwm Atodol (Rhif 3) ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad) at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 2 Mai 2025. Nododd y Pwyllgor Busnes y byddai, oherwydd gwelliannau hwyr i'r Bil a'r amserlen i'w ystyried yn Senedd y DU, yn anodd i bwyllgorau'r Senedd ystyried y Memoranda Atodol cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn;
- cyfeirio'r Memorandwm Atodol (Rhif 2) ar y Bil Tybaco a Fêps at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 6 Mehefin 2025;
- cyfeirio'r Memorandwm Atodol (Rhif 3) ar y Bil Iechyd Meddwl at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 27 Mehefin 2025;
- ymestyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar y Memorandwm ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion i 11 Gorffennaf 2025.

## 5 Cyllideb Atodol 2025-26 Llywodraeth Cymru

### 5.1 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch dull cyhoeddi cyllidebau atodol yn ystod 2025-26

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr.

## 6 Pwyllgorau

### 6.1 Yr effaith pan fydd Aelod yn gadael grŵp gwleidyddol: cadeirio pwyllgor a chynrychiolaeth ar bwyllgorau

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y goblygiadau sy'n deillio o atal Russell George dros dro o'r grŵp Ceidwadol a chytunodd:

- y dylai Cadeiryddiaeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol barhau i gael ei dyrannu i'r grŵp Ceidwadol ac y bydd y Llywydd yn gwahodd enwebiadau ar ddechrau'r Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 30 Ebrill;
- y byddai'r swydd wag ar y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn cael ei llenwi gan Gadeirydd newydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol; ac
- i ddychwelyd at ystyried sut i gynnig lle i Russell George ar un o bwyllgorau'r Senedd mewn cyfarfod diweddarach.

Nododd y Pwyllgor Busnes hefyd y goblygiadau i gynrychiolaeth yr Aelodau hynny nad ydynt yn aelodau o grwpiau gwleidyddol ar y Pwyllgor Busnes, sydd bellach yn codi o dan Reol Sefydlog 11. Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddai'r Llywydd yn ysgrifennu at y tri Aelod o dan sylw, er mwyn esbonio eu hawliau o dan Reol Sefydlog 11.3 ac y byddai'r Llywydd yn ystyried unrhyw farn a ddaw i law wrth benderfynu ar unrhyw ffordd o weithredu yn y dyfodol.

Nododd y Pwyllgor Busnes hefyd y bydd gofyn iddo ystyried gofynion y Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â ffurfio grwpiau gwleidyddol a chynrychiolaeth ar y Pwyllgor

Busnes, fel rhan o'i waith gweithdrefnol i adolygu'r trothwyon a gynhwysir yn y Rheolau Sefydlog yng ngoleuni Diwygio'r Senedd.

### 6.2 Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru: Trefniadau Cadeirio

Trafododd y Pwyllgor Busnes opsiynau ar gyfer llenwi swyddi gwag cyd-gadeirydd ac aelodaeth ar Bwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru.

Nododd Paul Davies fod safbwynt y grŵp Ceidwadol yn parhau i fod yn ddigyfnewid. Dywedodd Heledd Fychan fod grŵp Plaid Cymru o blaid model un Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor a dileu'r gofyniad iddo gael dau Gyd-gadeirydd.

Dywedodd y Trefnydd y byddai angen iddi roi ystyriaeth bellach i'r mater. Cytunodd y Pwyllgor i ddychwelyd at y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 7 Gwaith Gweithdrefnol

### 7.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ynghylch ei adroddiad ar benodiadau cyhoeddus.

Nododd y Pwyllgor Busnes yr argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn ei adroddiad ar benodiadau cyhoeddus a chytunodd i ystyried ei ymateb fel rhan o'i ystyriaeth a fydd yn cael ei chynnal o'i raglen waith weithdrefnol am y cyfnod sy'n weddill yn nhymor y Senedd bresennol.

### 7.2 Rhaglen Waith Weithdrefnol y Pwyllgor Busnes: camau nesaf

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes ei Raglen Waith Weithdrefnol a chytunodd i gyfarfod mewn cyfres o gyfarfodydd ychwanegol i ystyried materion gweithdrefnol, a bydd y cyntaf o'r cyfarfodydd ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i flaenoriaethu'r gwaith gweithdrefnol i'w gyflwyno yn yr amser sy'n weddill yn nhymor y Senedd hon.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r ysgrifenyddiaeth yn cyflwyno amserlen arfaethedig ar gyfer y cyfarfodydd ychwanegol.